Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

equalityhumanrights.com

Cynllun Busnes Dros Dro

2007-08

Crynodeb gweithredol

Rhagair gan y Cadeirydd

Mae creu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ddatblygiad arwyddocaol yn hanes cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain. Bydd yn dod â newid mewn ffocws o faterion cydraddoldeb unigol i fandad integredig pwerus, sy'n gweithio i hyrwyddo cymdeithas sy'n cynnig rhyddid gwirioneddol, tegwch a pharch i bawb.

Byddwn yn sefydliad uchelgeisiol. O'r cychwyn cyntaf byddwn yn gweithio tuag at gymdeithas wedi'i hadeiladu ar degwch a pharch, gyda phobl yn hyderus ym mhob agwedd ar eu hamrywiaeth. Byddwn yn defnyddio arbenigedd gan staff sy'n trosglwyddo o'r Comisiynau etifeddiaeth, gwaith gyda rhanddeiliaid allanol i hyrwyddo trafodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth, ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ar draws Prydain.

Bydd ein sefydliad yn agored ac yn awdurdodol, yn gallu gweithio gydag eraill ond hefyd yn gallu dweud na. Ni allwn, ac ni ddylem, weithio ar ein pennau ein hunain na cheisio datrys pob problem. Byddwn yn gweithredu'n strategol, ond yn agored ac yn hygyrch, gan wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar ein hamcanion, ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

Wrth galon ein cynllun strategol fydd blaenoriaethau clir, sy'n deillio o'n gweledigaeth ac sydd wedi'u ffurfio drwy drafodaeth eang a chadarn. Yn y tymor hir daw'r rhain yn ddatganiad o'r ffordd y byddwn yn cyflwyno ein gweledigaeth. A byddant yn ddatganiad clir o annibyniaeth y Comisiwn oddi wrth bwysau gwleidyddol.

Pan agorodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei ddrysau ym mis Hydref 2007, dim ond dechrau ar y broses o ddatblygu'r blaenoriaethau hyn yr oeddem ni. Ond bydd yn rhaid i ni ddarparu sylfaen dros ddosrannu adnoddau, a chynllunio busnes a gweithredol. Bydd arnom angen cynllun blynyddol arall ar gyfer 2008-09 ac ar ôl hynny byddwn yn symud ymlaen i strategaeth tair blynedd wedi'i chefnogi gan gylch cynllunio blynyddol. Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar ein cynllun strategol cyntaf ar gyfer blynyddoedd 2009-12 a fydd yn gosod ein blaenoriaethau unwaith y bydd y sefydliad ar ei draed. Yn ystod y cyfnod dros dro hyd at fis Ebrill 2008 mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio tuag at y pwynt hwn, er mwyn sicrhau dechrau llwyddiannus i'n sefydliad newydd.



Trevor Phillips
Cadeirydd

Ein gweledigaeth

Cymdeithas wedi'i hadeiladu ar degwch a pharch. Pobl yn hyderus ar bob agwedd ar eu hamrywiaeth.

Cefndir

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gorff corfforaethol a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2006 ('y Ddeddf') gyda phwerau newydd i orfodi deddfwriaeth ac i annog a hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. (Ei enw gweithio fydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.)

Bydd y Comisiwn yn ymdrin â Chymru, Lloegr a'r Alban. Bydd ganddo tri phwyllgor statudol ar gyfer Cymru, yr Alban ac Anabledd.

Fel corff sengl integredig ac annibynnol gyda phwerau newydd, mae'n dwyn ynghyd ac yn ychwanegu at waith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Agorodd y Comisiwn hwn ei ddrysau ar 1 Hydref 2007.

Dyletswyddau Statudol

Mae gan y Comisiwn ddyletswyddau yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a hawliau dynol. Y rhain yw:

- Hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau o dan ddeddfiadau cydraddoldeb
- Gorfodi'r deddfiadau cydraddoldeb
- Gweithio tuag at gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon
- Gweithio tuag at gael gwared ar aflonyddu anghyfreithlon
- Hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd hawliau dynol
- Annog arfer da mewn perthynas â hawliau dynol
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac amddiffyniad o'r hawliau dynol
- Annog awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio gydag adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 (c. 42) (cydymffurfio â hawliau Confensiwn)

Rhaid i'r Comisiwn hefyd hyrwyddo cysylltiadau da ymhlith a rhwng grwpiau ac eraill. Diffinnir 'grwpiau' gan y Ddeddf fel:

Grŵp neu ddosbarth o unigolion sy'n rhannu priodoleddau cyffredin yng nghyswllt unrhyw un o'r materion a ganlyn:

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw arfaethedig, sydd wedi dechrau neu wedi'i gwblhau [o fewn yr ystyr a roddir gan adran 82(1) Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 (c. 65)]
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae gofyn i'r Comisiwn fonitro effeithlonrwydd deddfau yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol a rhaid iddynt fonitro ac adrodd ar gynnydd a chanlyniadau.

Rhaid i'r Comisiwn baratoi ac ymgynghori ar gynllun strategol a dylid ei adolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd.

Pwerau statudol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ymgymryd â nifer o swyddogaethau ac i orfodi'r gyfraith. Y pwerau cyffredinol a roddir ar y Comisiwn yw darparu gwybodaeth, cyngor, ymgymryd ag ymchwil, a darparu addysg a hyfforddiant.

Gall y Comisiwn gyhoeddi codau ymarfer hefyd, er mwyn helpu eraill i ddehongli a chadw at ddeddfau sy'n perthyn i wahaniaethu a hawliau dynol [Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003].

O dan y rheoliadau cyffredinol a ganiateir gan y Ddeddf, gallai'r Comisiwn ymgymryd ag ymchwiliadau hefyd i unrhyw faterion yn ymwneud â'u dyletswyddau statudol neu roi grantiau neu gymorth cyfreithiol er mwyn dwyn achosion ymlaen.

Gall y Comisiwn orfodi'r gyfraith drwy ymgymryd ag ymchwiliadau. Os ymgymerir ag ymchwiliad er mwyn gweld a oes gweithred anghyfreithlon wedi digwydd, gall y Comisiwn ofyn i'r unigolyn ymgymryd â chynllun gweithredu er mwyn gwella'r sefyllfa.

Gellir cefnogi'r gofyniad hwn drwy lys sirol (yng Nghymru a Lloegr) neu siryf (yn yr Alban).

Mae ein pwerau yn caniatáu i ni fynd i gytundebau gyda'r rheini yr ydym yn drwgdybio y gallant fod wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, er mwyn cymryd camau ar y cyd. Gallwn hefyd wneud cais i'r llysoedd i atal gweithred anghyfreithlon debygol neu atal hysbysebu, cyfarwyddiadau neu bwysau i wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o dan y prif ddeddfau gwrth-wahaniaethu.

Gall y Comisiwn drefnu cymodi ar gyfer anghydfodau sy'n deillio o unrhyw weithred sy'n perthyn i'r deddfau priodol a gall ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolyn y mae rhywun wedi gwahaniaethu yn ei erbyn.

Rhoddir y pŵer i'r Comisiwn hefyd i ddechrau neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ar gyfer adolygiad barnwrol, os yw'r achosion yn perthyn i'n swyddogaethau.

Bydd y Comisiwn hefyd yn asesu cydymffurfiad gyda dyletswyddau'r sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau i ddileu gwahaniaethu o dan y prif ddeddfau gwrth-wahaniaethu. Mae'n bosibl y byddwn yn rhoi rhybudd i'r parti yr effeithiwyd arno, a gwneud cais i'r llys i gymryd camau pellach os oes angen.

Blaenoriaethau strategol ac amcanion busnes

Bydd y Comisiwn yn ymgynghori'n eang ar ei gynllun strategol cyntaf, gan ein helpu ni i osod ein blaenoriaethau a'r rhaglen waith ar gyfer cynllun gweithredol yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd wedi datblygu nifer cyfyngedig o flaenoriaethau strategol dros dro cychwynnol fel arweiniad i'n gwaith hyd oni fydd gennym gynllun strategol sydd wedi'i ddatblygu'n llawn yn ei le ar gyfer 2009-12. Sef:

1. Adeiladu Comisiwn credadwy ac annibynnol
2. Mapio, dadansoddi a thargedu brwydrau cydraddoldeb allweddol
3. Gwella cyfleoedd a phrofiadau bywyd
4. Datblygu storïau a hanesion newydd

Amcanion

Rydym wedi gosod ein hamcanion busnes er mwyn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol dros dro hyn sy'n arwain y ffordd tuag at ein huchelgeisiau yn y tymor hwy ac maent wedi'u clymu yn glir yng ngweledigaeth a chenhadaeth y Comisiwn.

1. Adeiladu Comisiwn credadwy ac annibynnol. Bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn sefydliad awdurdodol, wedi'i seilio ar dystiolaeth. O'n wythnos gyntaf, bydd y Comisiwn yn adeiladu ar ei awdurdod etifeddol ac yn ehangu ar ei arbenigedd i arwain ar drafodaeth hysbys ac arloesol.

2. Mapio, dadansoddi a thargedu brwydrau cydraddoldeb allweddol. Bydd y Comisiwn yn sefydliad uchelgeisiol sy'n edrych ymlaen. Bydd yn dangos arweinyddiaeth ac yn meithrin hyder, gan fodloni ein gofynion statudol yn Neddf Cydraddoldeb 2006 – fel asiant newid, hyrwyddwr, heriwr, amddiffynnydd a gorfodwr. Bydd yn mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb yn hytrach na dim ond trin y symptomau.

3. Gwella cyfleoedd a phrofiadau bywyd. Bydd y Comisiwn yn sefydliad hygyrch, sy'n wynebu am allan. O'n diwrnod cyntaf, bydd gan y Comisiwn ryngwyneb cyfeillgar i'r cyhoedd. Bydd yn darparu gwasanaeth cyngor a chwyno effeithiol, rhwydwaith cynhwysol o bartneriaid, gan gynnwys cysylltiad â grwpiau cyfeirio annibynnol ac sydd wedi'u sefydlu gan y llywodraeth neu eu cyrff olynol, a phartneriaeth adeiladol gyda'r llywodraeth.

4. Datblygu storïau a hanesion newydd. Mae ein huchelgais yn cynnwys dangos sut gall hawliau dynol fod yn rheolau sylfaenol ar gyfer cymdeithas decach. Rydym eisiau helpu i symud o ddiwylliant iawndal i ddiwylliant atal. Er mwyn cefnogi a chyfathrebu hyn, byddwn yn sefydlu tîm materion allanol ymatebol a gwybodus iawn i sicrhau ymdriniaeth gywir o'n gwaith, rheolaeth brydlon ac effeithiol o'n materion yn y cyfryngau a chyflwyno sesiynau briffio dealladwy a chynhwysfawr i newyddiadurwyr a gwybodaeth i'r cyhoedd.

Cylch gorchwyl

Rhoddir y dasg i'r Comisiwn i ymgymryd â'i ddyletswyddau ar gyfer Prydain Fawr i gyd.

Gan hynny mae'n bodoli i hyrwyddo tegwch i ychydig yn fwy na 58 miliwn o bobl (ffynonellau: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban). Mae'r cwestiwn o sut ydym yn byw gyda'n gilydd yn fygythiad mor fawr â newid yn yr hinsawdd, ac yn fygythiad mwy enbyd. Bydd y Comisiwn yn gweithio i sicrhau, mewn oes o wahaniaeth, bod cydraddoldeb yn cael ei weld fel egwyddor sylfaenol, er lles pawb.

Bydd gan y Comisiwn swyddfeydd ym Manceinion, Llundain, Glasgow, Birmingham, Caerdydd a phresenoldeb cydleoli yng Nghaeredin, gogledd Cymru a rhanbarthau Lloegr.

Strwythur rheoli

Bwrdd o Gomisiynwyr, wedi'i arwain gan y Cadeirydd Trevor Phillips, sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y Comisiwn. Y Prif Weithredwr a'r Comisiynydd Nicola Brewer, wedi'i chefnogi gan uwch dîm rheoli, sy'n atebol i'r Bwrdd ar gyflwyno busnes a chynghori'r Bwrdd ar flaenoriaeth strategol newydd. Mae pob un o dri phwyllgor statudol y Comisiwn dros Anabledd, yr Alban a Chymru yn cael eu cadeirio gan aelod o Fwrdd o Gomisiynwyr: Jane Campbell (Anabledd), Morag Alexander (Yr Alban) a Neil Wooding (Cymru).

Cynllun gwaith a gwasanaethau cychwynnol

Bydd y rhaglenni, y prosiectau a'r gwasanaethau y bydd y Comisiwn yn eu gweithredu erbyn mis Ebrill 2008, ynghyd â goblygiadau adnoddau a mecanweithiau mesur cychwynnol a ddarperir yn fanwl yn y cynllun busnes, yn cynnwys:

Cymorth cyfreithiol a gwaith achos	Prosiectau
Ymchwiliadau ac archwiliadau	Asesiadau effaith cydraddoldeb
Polisi ac ymchwil	Llinell gymorth
Materion cyhoeddus a'r cyfryngau	Gwefan
Cysylltiad â rhanddeiliaid	Grantiau

Cynlluniwyd y cynllun gwaith i gynnal momentwm etifeddiaeth gyfoethog y Comisiynau etifeddiaeth ac i gynnwys gwaith etifeddiaeth yn y mandadau cydraddoldeb newydd, er enghraifft, drwy annog camau ar feysydd megis gwahaniaethu ar sail oed sydd ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaeth mwy cyfyngedig.

Wrth i'r Comisiwn ddatblygu, bydd y canfyddiadau o'i ymgynghoriadau ar y cynllun strategol cyntaf a mapio rhanddeilaid yn gynyddol yn gyrru blaenoriaethau a gweithgareddau busnes.

Sefydliad

Mae'r cynllun sefydliadol wedi'i ddatblygu i fod yn hygyrch, yn awdurdodol ac yn uchelgeisiol. Wedi'i seilio ar fodel o'r enw 'matrics rheoli', mae wedi'i gynllunio i uchafu arbenigedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac mae'n strwythur hyblyg a niwtral tuag at flaenoriaethau. Bydd y staff yn gweithio'n bennaf mewn timau prosiect traws-swyddogaethol, gydag arweinwyr arfer yn cynnal a datblygu arbenigedd ar draws y sefydliad, yn hytrach na dibynnu ar arbenigwyr yn gweithio'n gyfan gwbl ar ystod fach o faterion neu destunau. Bydd gan gyfran arwyddocaol o staff bortffolio o gyfrifoldebau.

Adnoddau a risgiau

Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2007-08 a gytunwyd gyda'r adran nawdd yw £65.6 miliwn gydag atebolrwydd posibl ychwanegol o doriadau prydlesi o hyd at £5.3 miliwn. Lluniwyd y gyllideb er mwyn darparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r gweithgareddau a'r rhaglen waith a ddisgrifir yn y cynllun busnes hwn.

Mae dull cadarn ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau wedi'i sefydlu gydag arolygiaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Mae hyn yn cynnwys cofrestrau risgiau cynhwysfawr, cynlluniau lliniaru effeithiol, perchnogion atebol a phrosesau cynnydd/rhaeadru clir.

Dod o hyd i ni

www.equalityhumanrights.com

Cymru:
3ydd Llawr
Capital Tower
Ffordd y Brodyr Llwydion
Caerdydd CF10 3AG
(swyddfa dros dro)

Yr Alban:
St Stephens House
279 Bath Street
Glasgow G2 4JL
(swyddfa dros dro)

Lloegr:
3 More London
Riverside
Tooley Street
Llundain SE1 2RG

Arndale House
The Arndale Centre
Manceinion M4 3AQ

Cysylltu â Ni

info@equalityhumanrights.com

Cymru:
Ffôn 02920 66 3710
Ffacs 01925 886 905
Wales@equalityhumanrights.com

Yr Alban:
Ffôn 0141 245 1800
Ffacs 0141 248 5834
Scotland@equalityhumanrights.com

Lloegr:
Ffôn Llundain 020 3117 0235
Ffacs Llundain 01925 884 275

Ffôn Manceinion 0161 829 8100
Ffacs Manceinion 01925 884 000

Ffôn swyddfeydd rhanbarthol Lloegr
020 7023 5980

Llinellau cymorth

Cymru:
Ffôn 0845 604 8810
Ffôn testun 0845 604 8820

Yr Alban:
Ffôn 0845 604 5510
Ffôn testun 0845 604 5520

Lloegr:
Ffôn 0845 762 2633
Ffôn testun 0845 762 2644 (anabledd)

Ffôn 0845 604 6610
Ffôn testun 0845 604 6620 (hil, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, a hawliau dynol)

Cyfryngau

Os ydych chi'n gweithio yn y cyfryngau ac yn dymuno siarad â swyddfa'r wasg, ffoniwch 020 3117 0251 neu 020 3117 0242 (ffôn symudol y tu hwnt i oriau 07767 272 818).